

MANYLION I'CH DYDDIADUR

Mae eleni'n addo bod mor llawn a chyffrous ag erioed, felly dyma'r dyddiadau pwysig. Ceir manylion mwy manwl a ffurflenni cais ar y wefan.

Cyfansoddwyr Ifanc - Bydd y cyfansoddwr Lynne Plowman a'r Ensemble Preswyl eleni - The Hermes Experiment - yn rhoi tri chyflwyniad yn ystod wythnos **Medi 17-21 2018**.

Cynhelir sesiynau tiwtorial un-i-un yn ystod **Ionawr a Chwefror 2019**.

Y dyddiad cau i gyflwyno cyfansoddiadau yw **Chwefror 20 2019**.

Bydd pob cyfansoddiad a dderbyniwyd yn cael ei berfformio yn ystod wythnos **Ebrill 2 2019**, a bydd y cyngerdd dathlu terfynol ar benwythnos Ebrill **6 a 7 2019** yn Rhosygilwen.

Dosbarthiadau Meistr Cerddorion Ifanc - cynhelir y dosbarthiadau ar **Hydref 27 a 28 2018** yn Rhosygilwen, a'r dyddiad cau i ymgeiswyr fydd **Hydref 17 2018**.

Dosbarthiadau Meistr Ensembles - cynhelir y dosbarthiadau yn ystod wythnos **Ionawr 28 2019**, a'r dyddiad cau i ymgeiswyr fydd **Rhagfyr 14 2018**.